**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/KSNWT/5412/24

21 Mehefin 2024

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

Annwyl Mike

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb yn ffurfiol i adroddiad[1][2] eich Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 am: y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig. Rwy'n ddiolchgar am y sylw a roddwyd i'r mater hwn, gan gynnwys gan eich rhagflaenydd Huw Irranca-Davies AS.

Mae'n braf nodi bod casgliad y Pwyllgor yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru bod "y diwygiadau i'r Bil fel y nodir ym Memorandwm Rhif 3 yn dod o fewn diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, ac felly bod angen cydsyniad y Senedd."

Gweler isod fy ymateb i argymhelliad a sylwadau eich Pwyllgor:

**Argymhelliad 1.**

> Byddem yn croesawu eglurhad gan Ysgrifennydd y Cabinet am unrhyw drafodaethau pellach y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r gwallau teipograffyddol a gyflwynwyd yng nghymal 97 y Bil yn ystod Cyfnod Pwyllgor Ty'r Cyffredin, ac a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o sut a phryd y bydd y camgymeriadau yn cael eu cywiro.

**Ymateb Llywodraeth Cymru Derbyn.**

[1] cr-ld16352-w.pdf (senedd.cymru)
[2] https://senedd.cymru/media/sypoxlz3/cr-ld16455-w.pdf

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf gadarnhau fod fy swyddogion wedi cadw cysylltiad rheolaidd â'u cymheiriaid yn y DU ynghylch y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig a'i ddiwygiadau ac mae'r gwallau teipograffyddol yng nghymal 97 y Bil wedi eu nodi iddynt dro ar ôl tro. Fe fyddwch yn ymwybodol bod fy swyddogion wedi gofyn yn gyntaf am gywiro'r gwallau hyn fel rhan o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2.

Yn ddiweddarach, mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd y bydd y cywiriadau sillafu hyn yn cael eu gwneud pan gaiff y Ddeddf ei chyhoeddi. Maent wedi rhoi cyngor pellach, gan fod y Bil yn aros am Gydsyniad Brenhinol ar hyn o bryd, mai yn Senedd y DU fydd newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud ac nid yr Adran Drafnidiaeth, adran noddi Llywodraeth y DU. Nid yw mân wallau teipio o'r fath yn gyfystyr â newidiadau, felly nid ydynt ar hyn o bryd yn ymddangos ar dudalennau gwe Senedd y DU ar y Bil[3] Cerbydau Awtomeiddiedig.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Nodaf, yn ail adroddiad eich Pwyllgor, eich bod wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai wedi cynorthwyo eich gwaith craffu pe bai'r cyn Ddirprwy Weinidog wedi:

- ei gwneud yn glir pryd oedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r diwygiadau oedd yn destun Memorandwm Rhif 2; a
- nodi rhifau ffurfiol y diwygiadau ynghlwm wrth y diwygiadau i gymalau 88(5) a chymal 97.

Gwnaethoch godi'r rhain eto yn gysylltiedig â Memorandwm Rhif 3. Mewn ymateb i'r olaf, rwy'n derbyn y byddai gwybodaeth ychwanegol o'r fath wedi bod yn ddefnyddiol, fodd bynnag, rwy'n ymwybodol o ffactorau lliniaru ar waith, yn enwedig yr amserlen lem iawn sy'n gysylltiedig â Memorandwm Rhif 3. oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod dros doriad y Pasg.

A gaf achub ar y cyfle hwn unwaith eto i ddiolch i chi a'ch Pwyllgor am ei waith diwyd ynghylch y Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol niferus sy'n gysylltiedig â'r Bil Cerbydau Awtomeiddiedig. Hefyd, am graffu ac adrodd ar Femorandwm Rhif 3. i amserlen mor dynn.



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport

[3] https://bills.parliament.uk/publications/55379/documents/4804